- yn gyflogwr sy'n gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog.
- yn ystyriol o Awtistiaeth ac wedi ymrwymo i gael gwared ar y rhwystrau i gyflogaeth
- yn ymrwymedig i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael ein gofal i fanteisio ar gyfleoedd newydd ac ennill profiad.

## PROFFIL Y RÔL

**TEITL Y RÔL:** **Therapydd Galwedigaethol Cymunedol, (Gwasanaethau Integredig Canol Sir Fynwy)**

PARHAOL:

**RHIF ADNABOD Y SWYDD:** **SAS042**

**GRADD:** BAND I SCP 31 – SCP 35 £37,261 - £41,496

**ORIAU:** 37.0 yr Wythnos

**PATRYMAU GWAITH:** Llawn Amser = 37 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 5pm

**LLEOLIAD:** Cyfleuster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Monnow Vale, Parc Drybridge, Trefynwy, a allai newid yn y dyfodol os oes angen adleoli lleoliad y gwasanaeth. Ni thelir treuliau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

### **GWIRIAD GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (GDG)**

Mae penodiad i'r swydd hon wedi'i eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac mae'n destun y gwiriad GDG canlynol:

Gwiriad Manwl gyda Gwiriad Rhestr Wedi'i Wahardd o Oedolion

**YN ATEBOL I:** Rheolwr Tîm Integredig

### **ASESIAD Y GYMRAEG:**

Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.

Gwasanaethau Integredig Canol Sir Fynwy..... **Pwy ydym ni?**

### **DIOGELU:**

Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

**Ein Pwrpas:-** Helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain.

### **Pwrpas y Rôl hon:-**

- I weithio mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i integreiddio'n llawn fel aelod o'r Tîm Gwasanaethau Integredig Canolog aml-asiantaeth, sy'n defnyddio dull aml-broffesiynol o gynorthwyo pobl hŷn a chorfforol anabl, sydd angen cymorth parhaus i gynnal eu hannibyniaeth.
- Darparu asesiad therapiwtig ac ymyrraeth uwch i bobl yn y gymuned sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, eiddilwch, anabledau corfforol, dementia a/neu anghenion gofal lliniarol.
- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol tuag at ddatblygiad parhaus y Gwasanaeth Integredig.
- I weithio'n hyblyg ar draws y gwasanaeth gwaith cymdeithasol yn Monnow Vale a gwneud gwaith yn y Tîm Asesu ac Ailalluogi Tymor Byr a'r Tîm Tymor Hir, yn ôl y gofyn.

### **Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl hon:-**

Bydd disgwyl i chi 'helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain', trwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r cryfderau, sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ac sy'n nodi canlyniadau personol mesuradwy.

### **Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-**

#### ***Clinigol***

- Ymgymryd â phob agwedd ar ddyletswyddau clinigol fel ymarferydd ymreolaethol
- Bod yn broffesiynol ac yn gyfreithiol atebol am lwyth gwaith dynodedig ac i benderfynu blaenoriaethau ar gyfer maes gwaith ei hun, gan gydbwysu gofynion eraill sy'n gysylltiedig ag unigolion a phroffesiynol
- I reoli risg clinigol o fewn llwyth gwaith ei hun
- I asesu gallu unigolyn, cael caniatâd gwybodus dilys i driniaeth, a lle mae capasiti o'r fath yn ddiffygiol/absennol, i weithio o fewn fframwaith cyfreithiol wrth reoli'r unigolyn.
- I asesu a mynd i'r afael â sgiliau perfformiad galwedigaethol ym meysydd symudedd, diffygion synhwyraidd, sgiliau mewnwythiennol, meysydd rhyngpersonol a sgiliau gwybyddol, hunanofal, cynhyrchiant a hamdden.



- I gynnal yr asesiad cynhwysfawr o anghenion unigolyn gan gynnwys y rhai sydd â chyflwyniad cymhleth a darparu ystod o ymyriadau i ddiwallu'r anghenion hyn.
- Cynnal technegau ymyrraeth gorfforol lle bo hynny'n briodol
- I lunio cynlluniau / rhaglenni ymyrraeth unigol, gan ddefnyddio ystod eang o sgiliau triniaeth ac opsiynau i gynllunio rhaglen arbenigol o ofal
- I ddarparu cyngor, addysgu a chyfarwyddyd digymell a chynlluniedig i berthnasau, gofawr, disgyblaethau ac asiantaethau eraill i hyrwyddo dealltwriaeth o nodau therapi galwedigaethol ac ail-alluogi
- Darparu cynlluniau cynhwysfawr sy'n dirprwyo'n briodol i gefnogi gweithwyr i alluogi cynnal ymyriadau dros 7 diwrnod yr wythnos er mwyn hybu annibyniaeth
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol/aml-asiantaeth a chynadledau achos i gefnogi cydlynu gofal unigol. Bydd hyn yn cynnwys yr adolygiad o gynnydd defnyddwyr gwasanaeth a monitro eu hanghenion tymor hwy
- Sicrhau bod cofnodion clinigol cywir, cynhwysfawr a chyfoes yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd / Yr Awdurdod Lleol a meini prawf a gytunwyd yn broffesiynol
- Llunio adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer disgyblaethau neu asiantaethau eraill, sy'n ymwneud â chanfyddiadau asesu unigolion a/neu ganlyniadau triniaeth
- I gymryd rhan weithredol wrth fesur a gwerthuso gwaith ei hun trwy archwilio, mesur canlyniadau, cymhwyso ymarfer ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle bo hynny'n briodol.
- Gweithio i ganllawiau clinigol y Bwrdd Iechyd / Yr Awdurdod Lleol, proffesiynol a chenedlaethol ac mae ganddynt wybodaeth waith dda am safonau cenedlaethol perthnasol y dylid monitro ansawdd ymarfer iddynt.
- Nodi a chychwyn prosiectau gan gynnwys archwilio er mwyn adolygu arferion clinigol cyfredol yn unol â strategaeth ledled y gwasanaeth.

**Mae pob aelod o staff clinigol yn atebol ac yn gyfrifol am eu cymhwysedd clinigol eu hunain a dylent gyfyngu ar eu gweithredoedd i'r rhai y bernir eu bod yn gymwys amdanynt, yn unol ag arweiniad gan eu cyrff proffesiynol.**

## **Cyfathrebu**

- Adnabod a chyflogi sgiliau cyfathrebu geiriol ac aneiriol addas gydag unigolion, a allai fod ag anawsterau o ran deall neu gyfathrebu, er enghraifft, colli clyw, newid canfyddiad, dysffasia mynegiannol a derbynol, poen, ofn neu'r anallu i dderbyn diagnosis
- Addysgu unigolion/perthnasau/gofalwyr/eraill sy'n ymwneud â'u gofal ynglŷn â natur y cyflwr ac amcanion therapi galwedigaethol ac ymyriadau ailalluogi
- Ymgysylltu â'r unigolion, a pherthnasau/gofalwyr lle bo hynny'n briodol, wrth gynllunio a chytuno rhaglen driniaeth i wneud y mwyaf o botensial adsefydlu ac annibyniaeth
- I roi sgiliau priodol ar waith er mwyn hwyluso cymhellant a chael cydweithrediad wrth barhau â'r rhaglen driniaeth y cytunwyd arni
- I gyfathrebu ag empathi, gwybodaeth unigolion a allai fod o natur gymhleth a sensitif.
- Derbyngwybodaeth bersonol gymhleth gan unigolion, perthnasau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i gynllunio a datblygu rheolaeth achosion unigol yn effeithiol.
- Cyfleu gwybodaeth bersonol gymhleth yn effeithiol er mwyn sicrhau gweithio ar y cyd yn y Tîm gwasanaethau Integredig a gyda gweithwyr proffesiynol eraill ar draws iechyd ac asiantaethau eraill i sicrhau bod gwasanaeth amlddisgyblaethol wedi'i gydlyn.
- Cydnabod a chefnogi hawliau pobl a gofalwyr trwy hyrwyddo dewis unigol, gan barchu eu credoau, eu preifatrwydd a'u hurddas bob amser.
- I ymdrechu bob amser i ddarparu amgylchedd lle mae amrywiaeth unigolion a gofalwyr a chydweithwyr yn cael ei barchu.
- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan weithredu bob amser mewn modd proffesiynol.

## *Rheoli*

- Ar y cyd â Staff Arweiniol y Tîm Gwasanaethau Integredig, ac uwch staff lle bo hynny'n briodol, i gyfrannu at oruchwylio, arfarnu a rheoli perfformiad staff yn ôl y galw
- I arwain wrth ymdrin yn briodol ac yn broffesiynol gydag ymholiadau sy'n dod i'r Tîm Gwasanaethau Integredig
- I ddirprwyo ar gyfer uwch staff lle bo hynny'n briodol.
- Cymryd rhan yn y Bwrdd Iechyd fel yr amlinellir yn y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau fel rhywun sy'n adolygu ac fel person sy'n cael ei adolygu, ym mhroses adolygu'r Awdurdod Lleol.
- Cymryd rhan mewn gweithdrefnau recriwtio a dethol ar gyfer y Tîm Gwasanaethau Integredig yn ôl y gofyn.
- Cyfrannu at sefydlu staff newydd yn y Tîm Gwasanaethau Integredig.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Tîm Gwasanaethau Integredig er mwyn sicrhau cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol ar draws y tîm a chydlynu darparu gwasanaethau lleol
- Cymryd cyfrifoldeb dros ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel ac i gynghori personél priodol o'r angen i adolygu argaeledd adnoddau addas ar gyfer gofal unigolion
- Cynorthwyo i werthuso'r gwasanaeth, bydd hyn yn golygu er enghraifft cipio straeon pobl i'w defnyddio fel enghreifftiau achos, casglu data
- I ymgymryd â thasgau penodol fel y'u dynodwyd gan Reolwr/Rheolwyr Gwasanaethau Integredig/Arweinwyr Timau
- Nodi a chynnig newidiadau i wasanaethau ar gyfer maes gwaith ei hun a grwpiau prosiect arweiniol pan fo angen
- Cyfrannu at ddatblygiadau sy'n cynrychioli Therapi Galwedigaethol o fewn ail-alluogi gwell a'r tîm aml-ddisgyblaethol/aml-asiantaeth ehangach
- Cadw at bolisiau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd / Awdurdod Lleol a'r Tîm Gwasanaethau Integredig
- Cynnal cofrestriad gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd ac i ddarparu tystiolaeth o'r cofrestriad hwnnw'n flynyddol ar gais.

## ***Addysg a Hyfforddiant***

- Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am gynnal eu cymhwysedd eu hunain i ymarfer drwy weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus yn cynnwys arferion myfyriol, adolygu llenyddiaeth berthnasol, cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant lleol mewn swydd ac adolygu gan gymheiriaid, cynnal portffolio personol a phresenoldeb cyrsiau hyfforddiant perthnasol fel y nodwyd, o fewn cynllun datblygu personol. Lle bo'n briodol, cefnogir y gweithgareddau hyn gan y Tîm Gwasanaethau Integredig
- Datblygu sgiliau ac arbenigedd arbenigol ym maes therapi galwedigaethol i bobl sydd ag anghenion adsefydlu ac ailalluogi o fewn y gymuned.
- Bod yn aelod gweithgar a chyfrannu at y gwaith o drefnu a darparu'r rhaglenni hyfforddiant.
- I gynorthwyo i ddatblygu a dysgu staff eraill y Tîm Gwasanaethau Integredig fel y bo'n briodol.
- I ymgymryd â hyfforddiant, goruchwyllo ac asesu perfformiad myfyrwyr Therapi Galwedigaethol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phrifysgolion i sicrhau bod safon ymarfer ac addysgu yn cwrdd â'r safonau sy'n cael eu gosod gan y cymhwyster lefel gradd.
- I fodelu arferion da a safonau proffesiynol yn y gweithle.
- Cymryd rhan mewn ac arwain sesiynau addysg a hyfforddiant o fewn tîm ei hun, y tîm amlddisgyblaethol a sefydliadau allanol.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant gorfodol a statudol yn ôl y gofyn.
- I gymryd cyfrifoldeb am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, gan gynnal portffolio proffesiynol yn unol â'r canllawiau gan y Coleg Therapi Galwedigaethol, fel sy'n ofynnol ar gyfer cofrestrriad proffesiynol.

### **Dyma beth y gallwn ei rhoi i chi:-**

- Goruchwyliaeth reolaidd ac unrhyw gymorth rheoli angenrheidiol.
- Polisi gweithio'n hyblyg
- Amgylchedd swyddfa fodern.

**Beth arall sydd angen i chi ei wybod..... Ein Gwerthoedd:**

Mae ein diben yn seiliedig ar ymdeimlad clir o bwy ydym ni fel sefydliad. Rydym yn disgwyl i bobl sy'n gweithio gyda ni rannu set gwerth cryf a disgwyl bod y rhain yn amlwg yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'n cymunedau.

- Gwaith Tîm:** Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau o'r syniadau, a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.
- Bod yn agored:** Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.
- Hyblygrwydd:** Rydym yn hyblyg er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.
- Tegwch:** Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl a chymunedau ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.
- Caredigrwydd:** Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

Bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni'r rhain.

**Yn ogystal:**

Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am gynnal eu hunain mewn modd sy'n cydymffurfio â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.



## Manyleb Person

**Sut y byddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi dangos eich bod â'r canlynol:-**

Uwch Therapydd Galwedigaethol (nid ar sail cylchrestr)	
Band 6	
Dylai'r ymgeiswyr allu dangos y canlynol naill ai drwy enghreifftiau penodol a nodwyd wrth wneud y cais neu mewn cyfweiliad	
Addysg/Cymwysterau/Hyfforddiant	
Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Diploma/gradd mewn Therapi Galwedigaethol</li> <li>▪ Therapydd Galwedigaethol Cofrestredig</li> <li>▪ Cwrs addysgwyr clinigol perthnasol neu'n fodlon ymgymryd â hyfforddiant</li> <li>▪ Ystod briodol o addysg glinigol ôl-raddedig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cymryd rhan weithredol mewn grŵp diddordeb perthnasol</li> </ul>
Profiad	
Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Ystod eang o brofiad clinigol ôl-raddedig</li> <li>▪ Profiad penodol mewn Adsefydlu/Ailalluogi Cymunedol</li> <li>▪ Profiad o gymryd rhan mewn a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant mewn swydd</li> <li>▪ Profiad o oruchwylio staff</li> <li>▪ Profiad o weithio'n annibynnol</li> <li>▪ Y gallu i weithio dan bwysau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Profiad o fod wedi cymryd rhan mewn dyletswyddau ar alwad a phenwythnosau lle bo hynny'n briodol</li> <li>▪ Profiad o integreiddio cyfranogiad defnyddwyr wrth</li> <li>▪ ddatblygu gwasanaethau</li> <li>▪ Profiad o hwyluso dysgu gyda myfyrwyr israddedig</li> <li>▪ Profiad o gwblhau asesiadau ac ymyriadau arbenigol mewn lleoliad cymunedol</li> <li>▪ Profiad o gwblhau asesiadau ac ymyriadau arbenigol ar gyfer cwmpadau</li> <li>▪ Profiad o ddatblygu gwasanaethau</li> </ul>
Gwybodaeth a Sgiliau	
Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gallu asesu ar gyfer, cynllunio a chydlynu ystod o ymyriadau Therapi Galwedigaethol arbenigol.</li> <li>▪ Y gallu i drafod y broses o resymu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwybodaeth arbenigol wrth gymhwyso asesiadau ac ymyriadau Therapi Galwedigaethol mewn meysydd</li> </ul>

<p>clinigol wrth reoli achosion cymhleth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac ysgrifenedig wrth ryngweithio ag aelodau'r tîm, staff eraill,</li> <li>▪ Unigolion a'u teuluoedd</li> <li>▪ Yn llythrennog o ran TG</li> <li>▪ Y gallu i weithio'n effeithiol mewn amgylchedd tîm</li> <li>▪ Gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun</li> <li>▪ Rheolaeth amser dda</li> <li>▪ Ymwybyddiaeth o ganllawiau clinigol cenedlaethol a lleol perthnasol</li> <li>▪ Ymrwymiad i gymryd rhan mewn archwilio / datblygu clinigol a sefydliadol</li> <li>▪ Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i gwrdd â gofynion Proffesiynau Iechyd a Gofal</li> </ul>	<p>arbenigol e.e. Cwmpïadau, clefyd Parkinson's, Dementia</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Y gallu i drafod ethos llywodraethu clinigol a'i berthnasedd o ran Ymarfer Therapi Galwedigaethol</li> <li>▪ Gwerthfawrogiad o egwyddorion a chanfyddiadau ymchwil a'r effaith ar Ymarfer Therapi Galwedigaethol</li> <li>▪ Ystod o sgiliau generig i alluogi archwilio Lles gydag unigolion mewn perthynas â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</li> </ul>
---	--

Gofynion Eraill	
Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Y gallu corfforol i berfformio ac ymdopi â phob agwedd ar drin â llaw a thriniaeth therapiwtig yn ôl gofynion y swydd</li> <li>▪ Y gallu i addasu i newidiadau mewn trefn waith</li> <li>▪ Ar gael ar gyfer dyletswyddau ar alwad a phenwythnosau lle bo hynny'n briodol</li> <li>▪ Y gallu i symud rhwng safleoedd gan gynnwys ysbytai neu breswylfeydd unigolion yn ôl y drefn o rôl y swydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Y gallu i siarad Cymraeg</li> </ul>

- **Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol.**

Efallai y bydd gofyn i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff sy'n cael ei ariannu gan y Cyngor.

**Os ydych am gael unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, mae croeso i chi gysylltu â: Susanne Williams, Therapydd Arweiniol, Rhif Ffôn: 07976859884**

**Dyddiad cau: 5pm ar 24<sup>ain</sup> Tachwedd 2022**

**FFRAMWAITH SGILIAU IAITH GYMRAEG**
**LEFEL 1**

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir.</li> <li>Gall gyfarch unigolyn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.</li> <li>Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr.</li> <li>Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi.</li> <li>Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.</li> </ul>

**LEFEL 2**

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol.</li> <li>Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion.</li> <li>Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg.</li> <li>Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod.</li> <li>Gall ysgrifennu llythyr neu e-bost byr i drefnu apwyntiad.</li> </ul>



**LEFEL 3:**

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgysiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol.</li> <li>Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol.</li> <li>Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd.</li> <li>Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.</li> <li>Gallu ysgrifennu'n gymharol gywir wrth ddrafftio taflen wybodaeth fer neu boster yn Gymraeg fel bo'r angen.</li> </ul>

**LEFEL 4**

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith.</li> <li>Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen.</li> <li>Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol.</li> <li>Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion.</li> <li>Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur.</li> <li>Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gallu cynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau, dogfennau a llenyddiaeth byr gyda chymorth cymhorthion cyfieithu Cymraeg ee. Cysgeir, Cysill.</li> </ul>

## LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhai trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"><li>• Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr.</li><li>• Gall ddeall amwysedd a naws iaith.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth.</li><li>• Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol.</li><li>• Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig.</li><li>• Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen.</li><li>• Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.</li></ul>